# Y Gronfa Radio Cymunedol

## Adroddiad diwedd blwyddyn: 2023-24

Adroddiad blynyddol ar y Gronfa Radio Cymunedol

**Adroddiad**

Cyhoeddwyd 7 Awst 2024

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg 3

2. Adroddiad diwedd blwyddyn y Gronfa Radio Cymunedol 2023-24..................................4

# 1. Trosolwg

1.1 Mae'r ddogfen hon yn egluro sut cafodd y Gronfa Radio Cymunedol ("y Gronfa") ei gweinyddu yn 2023-24. Mae'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ("DCMS") wedi gofyn i Ofcom weinyddu'r Gronfa. Mae DCMS yn rhoi swm o arian i'r Gronfa bob blwyddyn, ac mae grantiau'n cael eu dyfarnu i orsafoedd radio cymunedol sydd wedi'u trwyddedu gan Ofcom.

# 2. Y Gronfa Radio Cymunedol – Adroddiad Diwedd Blwyddyn 2023-24

2.1 Diben y Gronfa Radio Cymunedol yw helpu'r rhai sy’n dal trwyddedau radio cymunedol, a helpu gyda’r costau craidd sy’n gysylltiedig â darparu gwasanaethau radio cymunedol.

2.2 Ofcom sy’n gweinyddu’r Gronfa ar ran DCMS. Mae’r arian sy’n cael ei ddyrannu i’r Gronfa yn cael ei roi ar ffurf grantiau, yn dilyn proses ymgeisio ffurfiol.

2.3 Panel y Gronfa Radio Cymunedol (“y Panel”) sy’n penderfynu ar y ceisiadau am grant, ac mae’r Panel yn adrodd i Fwrdd Rheoli a Pholisi Ofcom.

2.4 Fe wnaeth y DCMS ddyrannu £400,000 i’r Gronfa ar gyfer blwyddyn ariannol 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024. Sicrhaodd y DCMS £50,000 arall a chytunodd hefyd bod:

- tanwariant grant blaenorol o £4,020; a;
- gellid dyrannu enillion grant o £17,245 cyn yr ail rownd o gyllid ym mis Ionawr 2024 i’r Gronfa.

O ganlyniad, darparwyd cyfanswm o £471,265.

2.5 Cyfarfu’r Panel ddwywaith yn ystod y flwyddyn i ystyried y ceisiadau am grantiau, ym mis Gorffennaf 2023 ac ym mis Chwefror 2024.

## Crynodeb o’r taliadau

2.6 Yn y rownd gyntaf, dyfarnwyd cyfanswm o £213,433 mewn grantiau i 13 o orsafoedd.

2.7 Yn yr ail rownd, dyfarnwyd cyfanswm o £257,832 mewn grantiau i 14 o orsafoedd.

2.8 Dros y ddwy rownd gyllido, ystyriwyd 125 o geisiadau a oedd yn gofyn am gyfanswm o £2,463,040.

2.9 Roedd y grantiau a ddyfarnwyd yn ystod y flwyddyn yn amrywio o £5,300 i £28,000, gyda’r taliad cyfartalog yn £17,454. Dyfarnwyd cyfanswm o 27 o grantiau ar draws y ddwy rownd o gyllid.

## Blaenoriaethau'r Panel

2.10 Mae Ofcom yn cyhoeddi datganiad gan y Panel yn dilyn pob rownd ariannu sy'n nodi'r dyfarniadau a wnaed ac yn nodi blaenoriaethau ariannu'r Panel. Fel rhan o'r datganiad hwn, mae'r Panel hefyd yn darparu adborth cyffredinol ar y ceisiadau a ddaeth i law er mwyn rhoi rhywfaint o gymorth i ymgeiswyr aflwyddiannus gydag unrhyw geisiadau y byddant o bosibl yn eu cyflwyno yn y dyfodol.

2.11 Roedd y Panel o’r farn y dylai’r grantiau a roddwyd, cyn belled ag y bo modd, gefnogi sefydlogrwydd ariannol a chynaladwyedd hirdymor gorsafoedd, ac felly roedd yn debygol o ffafrio ceisiadau a oedd yn blaenoriaethu’r meysydd hyn a/neu’n cynnig siawns o ddod yn hunangynhaliol y tu hwnt i gyfnod y grant.

2.12 Yn y ddwy rownd amlygodd y Panel fod nifer fach o orsafoedd heb ddarllen y nodiadau cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Ofcom, sy'n pennu'r mathau o geisiadau na ellir eu hariannu, megis costau rhent/cyfleustodau a thalu ffioedd trwydded.

Ar ôl y ddwy rownd pwysleisiodd y Panel y dylai gorsafoedd sy'n gwneud cais am arian ar gyfer swyddi fod yn glir ynghylch cyfrifoldebau a disgwyliadau'r rolau hynny, a thynnodd sylw at y ffaith bod ceisiadau cryfion yn aml yn cynnwys targedau mesuradwy ar gyfer eu rolau, megis incwm disgwyliedig o rolau gwerthu/cynhyrchu incwm.

2.13 Ar ôl y rownd ddiwethaf, tynnodd y Panel sylw at y ffaith eu bod wedi ariannu rhai ceisiadau a oedd yn cynnig dulliau cynhyrchu incwm arloesol, megis drwy farchnata digidol, ac roeddent yn annog gorsafoedd eraill i ystyried dulliau arloesol yn y dyfodol.

2.14 Ar ôl yr ail rownd nododd y Panel, er ei bod yn bwysig bod yn realistig am sefyllfa gorsaf, eu bod hefyd wedi mwynhau darllen ceisiadau gan orsafoedd a amlygodd eu straeon o lwyddiant yn eu ceisiadau.

## Monitro grantiau

2.15 Mae gan y Panel weithdrefn adrodd ar waith i wneud yn siŵr bod y dyfarniadau grant yn cael eu gwario fel y cytunwyd. Rhoddir cytundeb grant ar waith rhwng Ofcom a phob trwyddedai y dyfernir grant iddo, ac mae hwn yn nodi telerau'r dyfarniad, gan gynnwys cyfnod gwariant. Ar ddiwedd cyfnod gwario'r grant, mae'n rhaid i'r ymgeiswyr llwyddiannus gwblhau adroddiad (yr 'adroddiad grant') sy'n rhoi manylion ynghylch sut roedden nhw wedi gwario eu grant o'r Gronfa. Ar ben hynny, gofynnir am adroddiadau grant interim hanner ffordd drwy'r cyfnod gwario perthnasol. Nod yr adroddiadau interim ydy helpu i ddod o hyd i unrhyw broblemau posibl a fydd yn deillio o wario'r grant. Os na roddir adroddiad boddhaol, mae'n bosib y bydd y Panel yn gofyn i'r grant gael ei ad-dalu, a gall ystyried peidio â dyfarnu grant pellach i drwyddedai mewn rownd yn y dyfodol.

2.16 Os bydd y sawl sy'n dal trwydded yn peidio â dal ei drwydded ddarlledu (e.e. drwy ei hildio neu ei dirymu) tra bod cytundeb grant yn ei le, bydd yn ofynnol i unrhyw arian grant sydd heb ei wario gael ei ad-dalu'n llawn.

2.17 Roedd yr holl adroddiadau grant a adolygwyd ac a ddaeth i law yn ystod 2023-24 yn rhai boddhaol ond mae'r broses yn parhau. Mae Ofcom yn edrych yn ofalus ar bob adroddiad, ac yn gofyn yn ystod y broses adolygu am esboniadau gan y rhai a dderbyniodd grantiau, os bydd angen.

2.18 Ystyriodd y Panel nifer o geisiadau i ail-bwrpasu rhan o'r arian a dderbyniwyd, neu i ymestyn cyfnod grant gan ddilyn anawsterau wrth lenwi swyddi gwag a ariannwyd. Mae'r Panel yn ystyried pob cais o'r math hwn ar ei delerau ei hun, gan ystyried y rhesymau y tu ôl i'r dyfarniad cychwynnol wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo ceisiadau o'r fath ai peidio.

## Y sector radio cymunedol a dyfodol y Gronfa

2.19 Mae'r sector radio cymunedol analog wedi aros yn sefydlog, ar ôl cwblhau'r rownd drwyddedu derfynol yn 2020. Mae llond llaw o orsafoedd ar fin cael eu lansio, ond ar hyn o bryd mae cyfanswm o 309 o orsafoedd radio cymunedol yn darlledu ar AM neu FM. Rydym yn gweld nifer fach o wasanaethau'n cael trafferth dod o hyd i ddigon o wirfoddolwyr i

gynnal lefelau cynnwys lleol fel y nodir yn y Prif Ymrwymiadau, sydd wedi arwain at bum trwydded yn cael eu dychwelyd. Cafodd dwy drwydded arall eu tynnu'n ôl oherwydd bod y rhai sy'n dal y drwydded wedi cael ei ddiddymu yn Nhŷ'r Cwmnïau am gyfnod sylweddol, heb unrhyw arwydd gan y rhai sy'n dal y drwydded o gynlluniau i adfer y drwydded. Fodd bynnag, pan fyddwn yn clywed bod rhai sy'n dal trwyddedau yn ystyried rhoi eu trwydded yn ôl, rydym yn eu hannog i weld a oes unrhyw grwpiau lleol eraill a fyddai'n ystyried ymgymryd â'r drwydded gan nad ydym yn ailhysbysebu unrhyw drwyddedau radio cymunedol analog ar hyn o bryd. Mae'r dull hwn wedi bod yn llwyddiannus mewn rhai achosion.

2.20 Ar hyn o bryd, rydym wedi cael 163 o geisiadau am drwyddedau Rhaglenni Sain Digidol Cymunedol (C-DSP), sef trwyddedau radio cymunedol ar gyfer darlledu radio digidol ar amlblecsau DAB ar raddfa fach. I gyd, rydym bellach wedi dyfarnu 134 o drwyddedau ac o'r rhain, mae 96 o orsafoedd Rhaglenni Sain Digidol Cymunedol bellach yn darlledu. Mae'r rhai sy'n dal trwydded Rhaglenni Sain Digidol Cymunedol yn gymwys i wneud cais i'r gronfa o'r dyddiad lansio ac wedi hynny, ac mae 38 arall yn cael eu dyfarnu ac yn aros i gael eu lansio. O'r trwyddedau sy'n cael eu dyfarnu, mae 69 yn gyd-ddarllediad uniongyrchol o wasanaethau radio cymunedol analog presennol, ac mae 65 yn wasanaethau newydd i'r farchnad. Rydym yn disgwyl i'r niferoedd hyn barhau i dyfu'n sylweddol dros y blynyddoedd nesaf oherwydd bod rhaglen drwyddedu amlblecs SSDAB yn parhau i gael ei chyflwyno.

2.21 Mae cytundeb cyllido cyfredol Ofcom gyda'r DCMS yn para tan 2024-25.

## Aelodau'r Panel

2.22 Mae'r Panel yn cynnwys tri aelod a benodwyd gan Fwrdd Rheoli a Pholisi Ofcom. Dyma oedd yr aelodau ar gyfer 2023/24:

- Mark Jones, Cadeirydd y Panel, sef un o gyn-weithwyr y BBC sydd â phrofiad helaeth o ohebu, cynhyrchu a rheoli radio;
- Olu Bankole, un o weithwyr Ofcom, sydd â phrofiad helaeth mewn materion ariannol a chyllido, ac;
- Alan Stewart, cyn Bennaeth y Comisiwn Teledu Annibynnol yn yr Alban a chyn-weithiwr Ofcom, sydd â phrofiad helaeth mewn cysylltiadau darlledu a materion cymunedol lleol.

2.23 Daeth cyfnod Olu Bankole fel aelod i ben ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2023/24, ar ôl ymuno â'r Panel yn 2021. Hoffai Ofcom a'r Panel gofnodi eu diolch i Olu am ei gwasanaeth dros y blynyddoedd. Mae Clare McNally-Luke, sef un o weithwyr Ofcom, wedi cymryd lle Olu ar y Panel sydd bellach wedi dechrau yn y rôl ac a fydd yn ystyried ceisiadau yn y rownd gyllido gyntaf ym Mlwyddyn Ariannol 2024/25; daeth y cyfnod ymgeisio ar gyfer y rownd hon o gyllid i ben ddydd Gwener 14 Mehefin.